# JONES, EDMUND OSBORNE (1858 - 1931), clerigwr

**Enw:** Edmund Osborne Jones
**Dyddiad geni:** 1858
**Dyddiad marw:** 1931
**Priod:** Ada Jones (née Howells)
**Rhiant:** Adelaide Jones
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Ganwyd yn Abermaw 24 Medi 1858, ail fab John Jones, rheithor Llanaber ac Abermaw, ac Adelaide ei wraig. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Dolgellau ac Ysgol Friars, Bangor, dan D. L. Lloyd. Enillodd ysgoloriaeth i Goleg Merton, Rhydychen; cafodd anrhydedd yn y dosbarth cyntaf yn yr arholiad cyntaf yn y clasuron yn 1878, a graddio yn 1880. Bu'n athro am beth amser yn Trowbridge, ac urddwyd ef yn ddiacon gan esgob Ely yn 1885 ac yn offeiriad yn 1886. Ar ôl bod yn gurad yn Lloegr am bedair blynedd, aeth i Goleg Crist, Aberhonddu, yn athro yn 1889, ac yn 1891 penodwyd ef yn ficer Llanidloes gan ei hen brifathro, a oedd bellach yn esgob Bangor. Bu yno hyd 1923, a bu hefyd yn ddeon gwlad Arwystli ac yn ganon trigiannol ym Mangor. Yn 1923 aeth yn rheithor i Rushton, ger Kettering, a bu farw yno 11 Mawrth 1931.

Priododd yn 1886 Ada Howells, a bu iddynt dri mab (collwyd dau yn rhyfel 1914-8) ac un ferch. Yn 1896 cyhoeddodd *Welsh Lyrics of the Nineteenth Century*, ac yn 1906 *Welsh Poets of Today and Yesterday* (cyfieithiadau o'r Gymraeg).

## Awdur

**Thomas Iorwerth Ellis**, (1899 - 1970)

## Ffynonellau


*Crockford's Clerical Directory*

Foster, *Alumni Oxonienses*

*Who was who?*

*Y Llan*, 20 Mawrth 1931

*Yr Haul*, Ebrill 1931

ymholiadau personol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732922


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu